**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID**

# Adroddiad ar effaith ariannol clwy'r traed a'r genau ar gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Cyflwyniad

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn nodi:

*Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*

*(i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

*(ii) yr amserlen ar gyfer ystyried awgrymiadau cyllideb a chynigion cyllideb ac ar drin a thrafod busnes ariannol; a*

*(iii) unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y llywodraeth neu wariant arall o Gronfa Gyfunol Cymru neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.*

2. Bu effaith clwy'r traed a'r genau ar y diwydiant ffermio yng Nghymru yn destun pryder eang. Ni fu'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru dalu iawndal i ffermwyr am anifeiliaid a gafodd eu lladd o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau oherwydd ni chafwyd achosion o'r clefyd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r argyfwng wedi effeithio'n fawr ar y diwydiant ffermio ac yn anochel, arweiniodd hyn at y galw ar y Llywodraeth i leihau ei effeithiau. Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar wariant y Llywodraeth, ac felly penderfynodd y Pwyllgor Cyllid lansio ymchwiliad byr i'r mater gan ddefnyddio ei bwerau o dan Reol Sefydlog 14.2 (iii).

## Cefndir

3. Canfuwyd achos o glwy'r traed a'r genau yn Surrey ar 3 Awst 2007 a dilynwyd hyn yn syth gan gyfyngiadau ar symud anifeiliaid a masnach ledled Prydain Fawr. Er nad oedd y clefyd wedi effeithio'n uniongyrchol ar ffermydd yng Nghymru, roedd y cyfyngiadau o ran symud anifeiliaid a'r cyfyngiadau eraill yn gymwys iddynt hwy hefyd ac amharodd hyn yn sylweddol ar waith ffermwyr ledled Cymru.

4. Codwyd y gwaharddiad ar allforio anifeiliaid ar 25 Awst ond cafodd ei ailosod ar 12 Medi ar ôl canfod ail achos o glwy'r traed a'r genau. Ni chanfuwyd unrhyw achos wedi hyn a chodwyd y cyfyngiadau domestig yn raddol. Erbyn 17 Hydref, dilëwyd yr holl gyfyngiadau yn gyfan gwbl yng Nghymru. Codwyd y cyfyngiadau ar allforio cig a chynhyrchion cig o ganol mis Tachwedd ond parhaodd y gwaharddiad ar allforio anifeiliaid byw tan 13 Rhagfyr.

5. Gan nad oedd achosion o'r clefyd yng Nghymru, nid oedd yna ofyniad i dalu iawndal am yr anifeiliaid a gafodd eu lladd. Fodd bynnag, ni thelir iawndal yn awtomatig i'r ffermwyr yr effeithir arnynt gan y mesurau gorfodol i atal y clefyd rhag lledaenu. Yn benodol, mae unrhyw achos o'r fath yn debygol o effeithio'n sylweddol ar y marchnadoedd ar gyfer cig a chynhyrchion cig a thrwy hynny effeithio'n andwyol ar ffermwyr a'r diwydiant yn ehangach. Bu llawer o alw ar

Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymyrryd er mwyn lleihau holl effeithiau'r clefyd na roddir iawndal amdanynt.

**Tystiolaeth**

6. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid gyfarfod ar 22 Tachwedd lle casglodd dystiolaeth gan dystion a oedd yn cynrychioli'r prif undebau a'r sefydliadau cynrychiadol yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r sector ffermio:

| | |
|---|---|
| Dr Nick Fenwick | Cyfarwyddwr Polisi Amaethyddol, Undeb Amaethwyr Cymru |
| Gareth Vaughan | Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru |
| Dai Davies | Llywydd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru |
| Mary James | Dirprwy Gyfarwyddwr/Pennaeth Polisi Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru |
| Gwyn Howells | Prif Weithredwr Hybu Cig Cymru |
| Rees Roberts | Cadeirydd Hybu Cig Cymru |
| Dyfrig Siencyn | Cadeirydd Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw |

7. Roedd Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, hefyd yn bresennol yn y cyfarfod a gwrandawodd ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i gynrychiolwyr y diwydiant. Ymatebodd i'r farn a fynegwyd yn y cyfarfod gan y tystion eraill a mynegodd y Pwyllgor Cyllid ei werthfawrogiad o'i pharodrwydd i wneud hyn yn syth.

**Effaith y clefyd**

8. Roedd effaith y clefyd ar y diwydiant ffermio yng Nghymru yn uniongyrchol ac yn ddifrifol. Dyma'r adeg brysuraf o ran prynu a gwerthu anifeiliaid ond roedd y cyfyngiad ar symud anifeiliaid yn golygu nad oedd yn bosibl lladd anifeiliaid. Roedd yr effaith hefyd yn fwy ar gyfartaledd yng Nghymru o ganlyniad i faint y sector defaid yma. Canlyniad hyn oedd bod ffermwyr yn colli incwm yn ogystal â'n gorfod talu cost ychwanegol ac annisgwyl ar gyfer bwyd anifeiliaid, a hynny am gost uwch. Roedd colli allan ar y marchnadoedd allforio hefyd yn golygu bod llawer o anifeiliaid yn aros yn y DU ac effaith hyn oedd bod prisiau'n cael eu gwthio i lawr. Yn ddiddorol, ni chafwyd gostyngiad mawr mewn prisiau gwerthu, sy'n awgrymu bod elw'n cael ei wneud rhywle arall yn y gadwyn, ac efallai mai ffermwyr oedd yn dioddef fwyaf o ganlyniad i'r clefyd.

9. Nododd Undeb Amaethwyr Cymru fod pris misol y cynhyrchydd ar gyfartaledd ar gyfer ŵyn wedi'u pesgi wedi gostwng 20% rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref. Amcangyfrifodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr fod pris ŵyn wedi gostwng 33% rhwng mis Awst a mis Hydref 2007 o gymharu â 3% yn 2006. Ochr yn ochr â hyn cododd costau cynhyrchu ar y fferm, gyda phrisiau gwenith 97% yn uwch ym mis Awst 2007 o gymharu â mis Awst 2006; a chododd costau gwellt a gwrtaith 25% a 10% yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â'r costau ychwanegol o orfod bwydo anifeiliaid nad oedd wedi'u gwerthu, roedd problemau sylweddol parhaus yn bodoli yn ogystal â phroblemau lles posibl. Mewn rhai achosion arweiniodd yr oedi hwn at yr ŵyn yn tyfu'n rhy fawr i gael eu gwerthu yn eu marchnad benodol.

10. Caiff tua 830,000 o garcasau ŵyn ysgafn eu hallforio bob blwyddyn rhwng mis Awst a mis Chwefror - mae tua 300,000 o'r rhain yn dod o dan y categori ysgafnach lle nad oes marchnad iddo yn y DU. Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr y caiff 35% o gig oen o Gymru ei allforio ac nid yw'n bosibl dod o hyd i farchnadoedd newydd ar gyfer y lefel honno dros nos. Nododd Hybu Cig Cymru, er bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud o ran marchnata a bod gwerthiant cig oen Cymru a Lloegr wedi cynyddu 8%, mae yna fwy o gig oen yng Nghymru a Lloegr nag y gallwn ei fwyta.

11. Codwyd y gwaharddiad ar allforio anifeiliaid rhwng 25 Awst a 12 Medi ond cyfyng iawn oedd manteision hyn gan mai dim ond nifer gyfyng o anifeiliaid a gafodd eu hallforio yn ystod y cyfnod hwn.

**Amcangyfrif o'r costau**

12. Mae'n anodd asesu'r holl gostau ar hyn o bryd. Cafwyd ffigur amcangyfrifedig gan Hybu Cig Cymru o £30.9m ar gyfer effaith y gwaharddiad ar allforio anifeiliaid a'r gostyngiad mewn prisiau. Cafwyd cyfrifiad manwl gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a daethpwyd i'r casgliad bod y diwydiant yn wynebu bil o dros £40m o ystyried y costau canlyniadol ychwanegol a gododd o'r cyfyngiadau symud. Amcangyfrifodd Undeb Amaethwyr Cymru fod y gost hyd yn oed yn uwch na hyn. Nododd y Pwyllgor Cyllid fod y Gweinidog dros Faterion Gwledig, yn ei thystiolaeth i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar 30 Tachwedd, wedi derbyn bod ffigur Hybu Cig Cymru o £30m i'r sector defaid yn gadarn.

13. Dyma'r unig gostau y gellir eu nodi a'u hasesu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r clefyd yn parhau i effeithio ar y diwydiant ffermio gan fod yn rhaid i ffermwyr ymdopi â chanlyniadau uniongyrchol y cyfyngiad ar symud anifeiliaid, niwed tymor hwy i farchnadoedd a phroblemau ariannol o ganlyniad i amhariad ar incwm ffermydd.

**Cyfrifoldeb dros roi iawndal**

14. Ceir tystiolaeth gref iawn fod y clefyd wedi deillio o feirws a oedd wedi dianc o safle Pirbright, sef safle a gaiff ei noddi gan Lywodraeth y DU i gynhyrchu brechlyn ar gyfer clwy'r traed a'r genau. Dyma'r casgliad y daethpwyd iddo mewn ymchwiliadau annibynnol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Spratt. Cynhelir gwaith ymchwil pellach maes o law a chaiff achosion ac effaith y clefyd eu nodi'n fanwl gan nodi'n glir pwy sydd ar fai.

15. Fodd bynnag, nid dyma'r mater y mae'r diwydiant a'r Llywodraeth am fynd i'r afael ag ef yn syth. Yr hyn sydd angen ei wneud ar hyn o bryd yw rhoi help a chymorth i ddiwydiant sy'n dioddef o glefyd a ddaeth, yn ôl y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ar adeg anodd iawn i'r diwydiant, a hynny am mai dyma'r cyfnod prysuraf o ran prynu a gwerthu anifeiliaid. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod hyn, sy'n amlwg drwy ei gweithredoedd. Dwedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid fod dau benderfyniad wedi cael eu gwneud o ran gwariant: darparu £6.75m ar gyfer y cynllun gwaredu ŵyn ysgafn ac £1m i hybu cig coch a chig oen yn arbennig.

16. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid fod rhagor o gymorth i'r diwydiant yn bosibl a bod trafodaethau'n parhau â'r Trysorlys. Fodd bynnag,

roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU o farn wahanol o ran pwy sy'n gyfrifol am ddarparu iawndal a phwy ddylai dalu'r bil terfynol.

17. Mae'n amlwg bod y Pwyllgor Cyllid yn croesawu ac yn cefnogi mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru, er ei fod wedi nodi bod y gwariant ar y fenter gyntaf, sef tua £3.75m, yn sylweddol is na'r hyn a ragwelwyd. Yn ogystal, hyd yn oed os nad dyma oedd y sefyllfa neu fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trosglwyddo'r arian hwn i gynlluniau adfer eraill, yn unol â chais diweddar gan yr undebau, byddai lefel y cymorth i'r diwydiant yng Nghymru wedi bod llawer is na'r lefel a roddwyd yn yr Alban sy'n wynebu anawsterau tebyg o ganlyniad i sefyllfa debyg.

18. Mae Llywodraeth yr Alban wedi darparu £6 am bob dafad i ffermwyr, sef swm a fyddai wedi cyfateb i £27m ar gyfartaledd yng Nghymru o gymharu â £7.75m (neu'r swm gwirioneddol o £4.75) a ddarparwyd hyd yn hyn. Roedd y Gweinidog yn cydnabod y gellir ystyried hyn yn fargen well i ffermwyr yr Alban na'r swm y cytunwyd arni ar gyfer ffermwyr Cymru.

19. Y prif wahaniaeth yma yw bod taliadau'r Alban yn dod o gronfeydd wrth gefn y disgwylir eu hadfer o'r Trysorlys.

## Casgliad

20. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid wedi edrych yn fanwl ar y ffigurau a gyflwynwyd o ran costau clwy'r traed a'r genau i Gymru. Mae'n nodi casgliad y Gweinidog, sef bod ffigur mis Tachwedd Hybu Cig Cymru o gost o £30m i'r sector defaid yn eithaf cadarn. Mae hefyd yn cefnogi'r farn a fynegwyd gan Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, sef bod y diwydiant yn debygol o wynebu bil o fwy na £40m o ystyried y costau canlyniadol ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i gyfyngiadau ar symud anifeiliaid. Noda'r Pwyllgor Cyllid fod y gost yn parhau i godi ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod asesiad llawn a manwl o holl gostau'r clefyd yn cael ei baratoi ar yr adeg briodol.

21. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r diwydiant, ond mae'n nodi siomedigaeth y diwydiant o ran lefel y cymorth a ddarparwyd mewn gwirionedd.

22. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfaddef bod effaith clwy'r traed a'r genau ar y diwydiant yng Nghymru wedi bod yn ddifrifol a'i fod wedi dod ar adeg anodd iawn i'r diwydiant, sef y cyfnod prysuraf o ran prynu a gwerthu anifeiliaid. Er bod y clefyd wedi deillio o ddiffyg sydd yn gyfan gwbl y tu allan i Gymru a, heb ystyried pwy sydd ar fai, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ran i'w chwarae i helpu.

23. Teimla'r Pwyllgor Cyllid y dylai'r Llywodraeth asesu anghenion y diwydiant ffermio yn iawn ac yn deg er mwyn goresgyn effaith clwy'r traed a'r genau a rhoi'r help angenrheidiol a phriodol i'r diwydiant. Mae'n nodi dadl Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru y dylai'r iawndal gyfateb i £40m er mwyn digolledu'r holl golledion a nodwyd eisoes, ond o gofio'r adnoddau sydd ar gael, teimla nad yw hyn yn realistig. Fodd bynnag, mae'n argymell y dylid cynnig swm ychwanegol a sylweddol o arian o gronfeydd wrth gefn.